# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Sêr Bach Cyf**

**Llys Goferydd**
**Bryn Parc Cefni**
**Llangefni**
**LL77 7XA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Sêr Bach Cyf

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Meithrinfa Sêr Bach Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 55 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 24 Hydref 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| Llesiant | **Rhagorol** |
| Gofal a Datblygiad | **Rhagorol** |
| Yr Amgylchedd | **Rhagorol** |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo yn y gwasanaeth. Mae'r plant yn cael digon o gymorth i ddysgu drwy eu chwarae ac i ddatblygu eu hannibyniaeth. Maent yn ffynnu yn emosiynol, yn gymdeithasol, yn gorfforol ac yn ddeallusol.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn gymwysedig, ac yn cydweithio'n effeithiol fel rhan o dîm. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau cadarn a chlir ar waith. Maent yn cynllunio amrywiaeth ragorol o weithgareddau diddorol, llawn hwyl er mwyn helpu'r plant i ddatblygu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal yn ddiogel ac yn lân. Mae polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i gefnogi'r staff ac i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r holl ofynion iechyd a diogelwch diweddaraf. Mae'r safle yn addas i blant, yn olau, yn ysgogol ac yn cynnwys digonedd o adnoddau er mwyn cynnig amrywiaeth helaeth o brofiadau i'r plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau cadarn ar waith o ran arweinyddiaeth a rheolaeth ac maent wedi llwyddo i sefydlu tîm o staff sy'n cydweithio'n eithriadol o dda ac sy'n helpu ei gilydd i ddarparu cyfleoedd chwarae a gofal effeithiol iawn i'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dangos ymrwymiad cryf i wneud gwelliannau parhaus.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Mae ganddynt lais cryf ac maent yn cael llawer o gyfleoedd i wneud dewisiadau. Er enghraifft, wrth iddynt chwarae yn yr awyr agored, dewisodd grŵp o blant gymryd rhan mewn gweithgaredd wedi'i gynllunio lle roeddent yn cymysgu dŵr o wahanol liwiau, ond aeth eraill ati i ddilyn eu diddordebau eu hunain, gan esgus eu bod yn coginio yn y gegin fwd, a chwarae gyda thryciau a ceir bach. Roedd y plant iau yn cael dewis o blith amrywiaeth ragorol o adnoddau ysgogol a oedd yn briodol o ran eu cam datblygiad. Mae hyn yn hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol, gan eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus. Er enghraifft, dangosodd un plentyn ddiddordeb mewn jig-so anifeiliaid fferm, gan ganolbwyntio ar roi'r darnau at ei gilydd ac enwi'r gwahanol anifeiliaid. Cafodd ei gefnogi'n frwdfrydig gan y staff ac roedd wrth ei fodd pan lwyddodd i gwblhau'r jig-so.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel gan eu bod yn cael gofal gan aelodau o staff y maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol iawn â nhw. Mae'r plant yn gwahodd y staff yn rheolaidd i ymuno yn eu chwarae. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn i aelodau o'r staff a ni gymryd rhan mewn gêm lle roedd yn esgus fod ganddo fan hufen iâ. Rhestrodd yr holl flasau gwahanol yn llawn brwdfrydedd, gan ofyn a oeddem am gael '*sprinkles'* , a chan fwynhau wrth esgus paratoi'r hufen iâ. Roedd y plant hŷn yn mwynhau siarad â'r staff am eu bywyd cartref a'u diddordebau yn fawr iawn. Roedd y babanod yn gwenu'n braf wrth gael mwythau cynnes. Mae gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn gyfarwydd iawn ag arferion y lleoliad.

Mae'r plant yn gyfeillgar ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r staff a gyda'i gilydd. Maent yn hapus wrth rannu teganau a chymryd eu tro, ac yn cydweithio'n frwdfrydig i gwblhau tasgau. Er enghraifft, wrth chwarae gyda'r clai, roeddent yn canolbwyntio'n dda wrth wneud gwahanol siapiau â'u dwylo, y rholwyr a'r cyllyll plastig. Roeddent yn rhannu adnoddau'n dda ac yn gofyn yn gwrtais os oeddent am ddefnyddio darn o offer roedd ffrind yn ei ddefnyddio. Mae'r plant yn dilyn rheolau'r lleoliad, yn ymddwyn yn dda ac yn dechrau deall anghenion eraill. Er enghraifft, gwnaeth y plant fwynhau creu twnnel â pharasiwt. Gwnaethant helpu'r staff i ddal dwy ochr y parasiwt, gan aros yn amyneddgar mewn rhes i gael cyfle i gropian o dan y parasiwt i'r ochr arall.

Mae'r plant yn dangos chwilfrydedd ac yn ymddiddori'n llwyr yn y gweithgareddau maent yn cymryd rhan ynddynt. Er enghraifft, roedd y plant yn gwrando'n astud ar straeon, yn dangos lefelau brwdfrydedd uchel wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd arbrawf gwyddonol dan arweiniad yr oedolion, ac roedd y plant iau yn dangos diddordeb mawr wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd chwarae â iâ gan ddefnyddio iâ a dŵr, a oedd yn cynnig cyfle i feithrin eu sgiliau echddygol manwl. Ceir cyfnodau estynedig o chwarae dan arweiniad y plant, sy'n galluogi'r plant i ymgolli'n llwyr yn eu chwarae eu hunain.

Mae plant o bob oedran yn cael cyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, sy'n eu galluogi i wneud cymaint â phosibl drostynt eu hunain. Caiff y plant eu hannog i fwyta'n annibynnol o oedran ifanc, maent yn helpu i dacluso eu teganau, ac yn magu hyder

cynyddol wrth ddefnyddio'r ystafell ymolchi ac wrth olchi a sychu eu dwylo. Mae'r plant hŷn yn helpu eu hunain yn llwyddiannus yn ystod amser brecwast, gan godi eitemau bwyd â gefeiliau, defnyddio'r cynhwysydd grawnfwyd yn annibynnol, ac arllwys eu llaeth eu hunain.

| Gofal a Datblygiad | Rhagorol |
| --- | --- |

Mae gan y staff ddealltwriaeth glir o'u rolau. Maent yn eithriadol o effeithiol wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach gan eu bod yn wybodus ac yn dangos ymrwymiad i roi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith. Mae amrywiaeth dda o gyfleoedd hyfforddi ar gael i'r staff, sy'n eu helpu i fod yn hyderus yn eu rôl ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r arferion gorau cyfredol. Maent yn glir am eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ac anghenion meddygol y plant. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn gyflym ac yn ddiogel pe byddai angen gwneud hynny, drwy gynnal ymarferion tân rheolaidd. Mae'r ymarferion hyn wedi'u dogfennu'n dda mewn cofnodlyfr penodol. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn glir, ac mae'r rhain yn cael eu monitro'n rheolaidd er mwyn nodi unrhyw dueddiadau, y gall fod angen ymdrin â nhw.

Mae'r staff yn annog ffyrdd iach o fyw drwy ddarparu digon o gyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff a threulio amser allan yn yr awyr iach. Caiff hylendid da ei hyrwyddo, gyda'r staff yn annog ac yn cefnogi pob plentyn i olchi ei ddwylo yn ôl yr angen. Mae amrywiaeth eang o brydau a byrbrydau iach ar gael i'r plant. Mae gan y staff systemau effeithlon ar waith i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion deietegol unigol y plant, er mwyn gwneud yn siŵr bod y plant yn cael prydau a byrbrydau addas.

Mae'r staff yn ymdrin â'r rhyngweithio rhwng y plant mewn ffordd sensitif a medrus iawn. Maent yn pen-glinio ar lefel y plant ac yn defnyddio lleisiau tawel i'w harwain. Maent yn dilyn polisi rheoli ymddygiad cynhwysfawr sy'n cael ei roi ar waith yn hyderus. Mae'r staff yn defnyddio iaith gadarnhaol ac yn cymryd pob cyfle i ganmol. Maent yn delio ag ymddygiad amhriodol mewn ffordd bwyllog ac amyneddgar. Maent yn adnabod y plant fel unigolion ac yn dangos dealltwriaeth a gwybodaeth ragorol am ddatblygiad plant a sut mae'n effeithio ar ymddygiad plant. Mae'r staff yn fagwrus ac yn fodelau rôl da.

Mae'r staff yn llawn cymhelliant ac yn cefnogi datblygiad y plant yn effeithiol. Maent yn monitro cynnydd y plant yn eithriadol o dda, drwy gynnal arsylwadau rheolaidd a defnyddio systemau olrhain cynnydd datblygiadol yn dda. Mae'r staff yn gwneud gwaith cynllunio cynhwysfawr ar sail datblygiad unigol y plant ac yn adolygu cynnydd yn gyson. Maent yn rhoi cymorth effeithiol i blant sy'n arddangos unrhyw anghenion ychwanegol newydd ac yn gofyn am gymorth ychwanegol gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol perthnasol. Mae'r staff yn awyddus i weithredu ac ymgorffori egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ac mae'r arweinwyr yn gweithredu mewn ffordd ragweithiol i'w helpu i ddatblygu'r sgiliau hyn. Mae'r staff yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn hyderus yn ystod gweithgareddau, ac mae'r plant yn ymgysylltu'n dda â hyn. Maent hefyd yn defnyddio Makaton, er mwyn helpu i gyfathrebu â'r plant iau, a phlant ag anghenion iaith ychwanegol.

| Yr Amgylchedd | Rhagorol |
| --- | --- |

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel. Er enghraifft, caiff mynediad i'r lleoliad ei reoli. Caiff y drysau allanol eu cadw dan glo a gofynnir i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd. Mae'r staff yn cadw cofrestr gywir o bresenoldeb y plant, gan gynnwys amseroedd cyrraedd a gadael pob plentyn. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr ar waith, sy'n amlinellu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant a'r camau a gymerwyd i reoli neu ddileu'r peryglon hyn. Caiff y dogfennau hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff unrhyw beryglon posibl eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi trefniadau glanhau cyson ar waith yn effeithiol sy'n adlewyrchu arferion hylendid rhagorol. Mae eu harferion rheoli heintiau hynod effeithiol yn llwyddo i leihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf. Er enghraifft, yn ystod amser newid cewynnau ac amser prydau bwyd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod digon o le i blant o wahanol oedrannau chwarae a dysgu. Maent yn trefnu'r amgylchedd yn effeithiol er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd chwarae cyffrous ac addas i bob ystod oedran sy'n cael gofal. Ceir ardaloedd penodol wedi'u trefnu mewn ffordd ddeniadol a rhoddir rhyddid i'r plant symud o gwmpas gan ehangu eu cyfleoedd chwarae. Mae'r plant yn cael digonedd o awyr iach, ac mae'n hawdd cyrraedd ardal chwarae awyr agored o bob ystafell, gan gynnig rhyddid i'r plant fanteisio ar yr ardaloedd hynny. Mae cyfleusterau addas ar gael gan gynnwys toiledau a mannau storio. Mae'r amgylchedd yn olau ac yn llawn lliw, ac mae pob rhan wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Gwneir defnydd effeithiol o'r holl le sydd ar gael, ac mae amrywiaeth o ystafelloedd ar gael i'r plant ymgymryd â gwahanol weithgareddau. Er enghraifft, ystafell chwarae feddal, ystafelloedd synhwyraidd, ystafell dawel i gysgu ynddi ac ystafell fwyta sy'n darparu digon o le i'r plant fwynhau profiadau cymdeithasol yn ystod prydau bwyd. Mae'r ardal awyr agored wedi cael ei dylunio mewn ffordd ystyrlon, gan ddarparu ardaloedd i'r plant chwarae gan ddefnyddio eu dychymyg ac i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau. Er enghraifft ffrâm ddringo i annog y plant i ddatblygu'n gorfforol, cornel archwilio â phaledi pren a theiars, yn ogystal ag ardal blannu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod adnoddau rhagorol ar gael i ennyn diddordeb a thanio dychymyg y plant. Mae adnoddau chwarae amrywiol ar gael yn hwylus i'r plant ac mae'r adnoddau hyn yn gwbl addas ar gyfer oedran y plant sy'n eu defnyddio. Mae'r staff yn newid yr ardaloedd dysgu yn rheolaidd er mwyn cynnal diddordeb y plant ac ehangu eu sgiliau. Ceir adnoddau i ddatblygu sgiliau synhwyraidd, sgiliau iaith, sgiliau rhifedd a sgiliau hunanymwybyddiaeth y plant. Mae amrywiaeth dda o adnoddau wedi'u hailgylchu, adnoddau go iawn ac adnoddau cynaliadwy ar gael i ddatblygu chwilfrydedd y plant. Mae'r staff yn dathlu gwaith celf y plant, ac mae ffotograffau i'w gweld fel rhan o arddangosiadau hyfryd ar y waliau er mwyn dangos bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Rhagorol**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu ac yn diweddaru eu polisïau unigol yn rheolaidd ac yn sicrhau y cânt eu rhoi ar waith yn llawn yn ymarferol. Mae eu datganiad o ddiben yn llawn gwybodaeth ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni i wneud penderfyniad mewn perthynas â gofal eu plentyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cymryd cyfrifoldeb dros roi gwybod yn brydlon i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am unrhyw ddigwyddiadau o bwys. Maent yn hyrwyddo'r arferion gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant sy'n cael gofal ganddynt mewn ffordd effeithiol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad system effeithiol i werthuso gwaith y lleoliad a'r gofal a ddarperir. Maent yn casglu safbwyntiau ac adborth gan y rhieni a'r staff. Caiff adborth ei gasglu hefyd gan y plant drwy siarad â nhw ac arsylwi arnynt yn ddyddiol. Maent yn adolygu ac yn gwneud cynlluniau ar gyfer newidiadau a gwelliannau a fydd o fudd i'r plant. Mae pob aelod o'r staff yn barod i dderbyn syniadau newydd ac yn fodlon rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn gwybod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod yn cael cyfarwyddyd clir, ac y caiff eu potensial ei ddatblygu. Soniodd y staff am y cymorth y maent yn ei gael gan y rhai hynny sy'n rhedeg y lleoliad, ymrwymiad i hyfforddiant, a diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Roedd tystiolaeth o hyn yn ffeiliau'r staff ac yn y cynlluniau datblygu hyfforddiant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i greu amgylchedd cefnogol i'r staff. Er enghraifft, maent wedi tanysgrifio i linell gymorth sy'n cynnig cymorth i'r staff a'u teuluoedd mewn perthynas â gwahanol agweddau ar eu bywydau personol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn monitro datblygiad proffesiynol a chynnydd y staff drwy gyfarfodydd trafod misol, sesiynau goruchwylio un i un ystyrlon a rheolaidd ac arfarniad blynyddol. Maent wedi sicrhau bod ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr ac yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen i asesu eu haddasrwydd, sy'n dangos bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr holl systemau ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn arloesol ac yn gwbl gynhwysol. Maent yn gofyn am wybodaeth fanwl am anghenion a dewisiadau'r plant, gan sicrhau bod rhieni yn cael gwybodaeth reolaidd wyneb yn wyneb, drwy gylchlythyrau ac ar eu tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol. Maent hefyd yn defnyddio ap lle gallant rannu gwybodaeth fel cynlluniau gwersi, arsylwadau, a lluniau o weithgareddau. Gellir defnyddio'r ap hefyd i anfon negeseuon yn ôl ac ymlaen rhwng y rhieni a'r staff. Caiff ymdeimlad y plant o berthyn yn y gymuned ei gefnogi a'i ddatblygu wrth i'r staff drefnu ymweliadau rheolaidd â mannau lleol o ddiddordeb. Er enghraifft, gwnaethant fwynhau taith i'r orymdaith Dydd Gŵyl Dewi yn Llangefni, ac maent yn mynd am dro i'r farchnad leol yn rheolaidd er mwyn dewis eu ffrwythau eu hunain. Cynhaliwyd wythnos “pobl sy'n ein helpu” yn ddiweddar a oedd yn cynnwys ymweliadau gan un o swyddogion yr heddlu, nyrs, a'r tîm deintyddol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/08/2024